# WILLIAMS, WILLIAM ('Carw Coch '; 1808 - 1872), eisteddfodwr a llenor

**Enw:** William Williams
**Ffugenw:** Carw Coch
**Dyddiad geni:** 1808
**Dyddiad marw:** 1872
**Rhiant:** Joan Williams
**Rhiant:** Noah Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** eisteddfodwr a llenor
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 6 Mawrth 1808 gerllaw Aberpergwm yn nyffryn Nedd, yn fab i Noah a Joan Williams, aelodau o gynulleidfa Undodaidd Blaen Gwrach. Symudodd yn ifanc i Dredegar, ac oddi yno i Lwydcoed, Aberdâr lle y priododd (1832) â merch o un o hen deuluoedd yr ardal. Yn 1837, cododd y gwesty yn Nhrecynon a elwid ' y Stag ' - dyna'r eglurhad ar ei ffugenw - ac yno y bu weddill ei fywyd. Yr oedd yn wleidydd egnïol, yn perthyn i gymdeithas 'Rhyddymofynwyr' Aberdâr, ac yn pleidio'r ' Chartists ' - ysgrifennai yn eu cyfnodolyn Cymraeg, *Udgorn Cymru*. Ysgrifennai hefyd yn *Yr Ymofynydd* (yr oedd yn aelod blaenllaw yn Hen D Cwrdd Undodaidd Trecynon), ac yr oedd yn un o gychwynwyr *Y Gwladgarwr* (y newyddiadur, 1857-83). Yn 1841 cynhaliwyd eisteddfod yn y Stag, a throes y ' Rhyddymofynwyr ' o hynny allan yn ' Gymreigyddion y Carw Coch,' y bu gw r fel ' Alaw Goch ' (David Williams) a'r Dr. Thomas Price, ac yn wir holl lenorion y fro, yn cymryd rhan ynddi. Cynhaliwyd ' eisteddfod y Carw Coch ' am gyfnod hir ar ôl 1841 - cynnyrch un o'r gyfres (1853) oedd y gyfrol *Gardd Aberdâr*, 1854, y gwelir un o draethodau ' Carw Coch ' ynddi. Bu farw 26 Medi 1872, a chladdwyd ym mynwent S. Ffagan, Aberdâr. Casglwyd peth o'i draethodau a'i brydyddiaeth mewn cyfrol, *Carw Coch*, 1908.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Gweddillion llenyddol y diweddar William Williams (Carw Coch) mewn rhyddiaeth a barddoniaeth*

D. M. Richards, *Rhestr Eisteddfodau hyd y flwyddyn 1901* (1914), 1914

*Cymru (O.M.E.)*, xl, 58-60, lvi, 41-4, 82-3

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 51497187

Wikidata: Q16065570

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu